# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**18FED MAI 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.A. Davies, P.M. Edwards, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, A. James, A.D.T. Speake, T.A.J. Davies, A. Vaughan Owen, J.S. Phillips a D. Thomas.

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd K. Lloyd – yn lle'r Cynghorydd T. Higgins;
Y Cynghorydd D. E. Williams – yn lle'r Cynghorydd A. Davies;
Y Cynghorydd G.H. John – yn lle'r Cynghorydd D. Phillips.

Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Wledig;
D. King, Rheolwr Gwasanaeth Thrafnidiaeth;
R. W. Waters, Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00am - 11:55am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, T. Higgins a D. Phillips.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD YMWELIAD SAFLE - CYFLWYNIAD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Wynn Morgan, Rheolwr-gyfarwyddwr a Sean Gallagher, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cwm Environmental.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg o ymweliad safle y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2018 i'r ddarpariaeth ailgylchu gwastraff yn Cwm Environmental a'r fflyd cynnal a chadw'r gaeaf yn Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr, Tre Ioan. Rhoddodd yr ymweliad safle gyfle i Aelodau'r Pwyllgor weld y safle ailgylchu a'r fflyd gaeaf ar waith a chyfle i siarad â gweithwyr.

Rhoddodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth wybodaeth am y ddarpariaeth a'r fflyd cynnal a chadw yn ystod y gaeaf a oedd yn cynnwys:

- Prif Rwydweithiau a Llwybrau Sir Gaerfyrddin
- Rhagolygon y tywydd
- Cyflenwadau halen
- Y Goblygiadau Ariannol
- Fflyd Graeanu ac Offer Graeanu

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wybodaeth am y ddarpariaeth ailgylchu gwastraff yn Cwm Environmental yn Nant-y-caws, Caerfyrddin. Darparwyd gwybodaeth weithredol i'r Pwyllgor am waith y safle o ran derbyn a phrosesu bagiau glas ailgylchu, gwastraff gweddilliol (gwastraff bagiau du) a chyfleusterau compostio. Yn ogystal, rhoddwyd esboniad i'r Pwyllgor o'r cyfleusterau a ddarperir gan y ganolfan ailgylchu gwastraff cartref a'r gwasanaethau eraill y mae Cwm Environmental yn eu darparu.

Dywedodd Rheolwr-gyfarwyddwr Cwm Environmental fod y farchnad rheoli gwastraff wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac er bod y farchnad yn dal yn anrhagweladwy, byddai'r cwmni yn parhau i reoli, monitro ac adolygu sefyllfaoedd byd-eang ac os yw'n briodol, chwilio am drefniadau prosesu eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r farchnad ar y pryd.

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch costau gwastraff, dywedodd Rheolwr-gyfarwyddwr Cwm Environmental fod y trefniadau ar gyfer cludo gwastraff tirlenwi i Copenhagen ar gyfer cyfnod cyfyngedig yn unig a bellach wedi dod i ben. Nodwyd bod y cwmni bellach yn defnyddio mannau gwastraff yn Sweden a Chaerdydd.

- Yn dilyn cau Canolfan Ailgylchu Llangadog a gwaredu'r banciau ailgylchu gwydr, gofynnwyd am eglurhad ynghylch y weithdrefn gywir ar gyfer gwaredu gwydr. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wrth y Pwyllgor y symudwyd y banciau ailgylchu gwydr o'r safle yn Llangadog ar gais trigolion lleol, oherwydd y sŵn a ddaw o'r lleoliad pan yr oedd gwydr yn cael ei waredu a dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i chwilio am ateb arall ar gyfer y safle. Eglurwyd ymhellach na ddylid gosod gwydr mewn bagiau ailgylchu glas a dylid cael gwared ar wydr yn briodol, mewn banc ailgylchu gwydr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwyr o Cwm Environmental am ddod i'r cyfarfod ac i'r swyddogion am eu cyflwyniadau.

## 6. ADRODDIAD TERFYNOL GRWP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD 2017/18

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a luniwyd ar 17 Tachwedd 2017, i ymchwilio i'r ddarpariaeth o ran cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd. Lluniwyd yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad gan y Grŵp ar ôl ystyried yr ystod o dystiolaeth oedd dan sylw mewn cyfres o gyfarfodydd oedd wedi eu cynnal rhwng Ionawr 2018 ac Ebrill 2018.

Cyflwynodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen bob un o'r argymhellion i'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Swyddogion ddrafft cynnar o'r daflen 'Tirfeddianwyr Cyfagos a'r Brifford Gyhoeddus' i'r Pwyllgor, a gyfeiriwyd ato yn argymhelliad 2 yr adroddiad, a oedd yn dangos sut y byddai rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod priffyrdd a thirfeddianwyr cyfagos yn cael eu cyflwyno.

Codwyd y cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad:

- Dywedwyd nad oedd y borfa o amgylch yr Ystad Ddiwydiannol yn Cross Hands yn cael ei thorri'n ddigon aml. Felly, o ran yr adroddiad, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Esboniodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod ardaloedd trefol a gwledig fel arfer yn cael eu dynodi, o ran y priffyrdd, gan newid yn y terfyn cyflymder. Bydd ardaloedd trefol fel arfer â therfyn cyflymder 30mya neu weithiau 40mya, o'u cymharu â ffyrdd gwledig lle mae'r terfyn cyflymder cenedlaethol fel arfer ar waith ac mae'r terfynau cyflymder hyn yn adlewyrchu newid o ardal drefol i ardal wledig. Yn ogystal, byddai'r daflen honno yn cynnwys rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r Cyngor Sir a'r tirfeddianwyr cyfagos dros berthi, draeniau ac ymylon y priffyrdd. Ychwanegodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod Ystad Ddiwydiannol Cross Hands yn cynnwys cymysgedd o ffyrdd ac y byddai darn o ffordd newydd dan gyfrifoldeb yr Awdurdod yn fuan, ac yn dod yn rhan o'r rhaglen torri gwair.

- Dywedwyd nad oedd yr adroddiad wedi cynnwys effaith weledol y pyrth i'r trefi a fu'n eitem o bwys yn y blynyddoedd blaenorol. Cytunodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod pyrth i'r trefi yn nodwedd allweddol a byddai argymhelliad 5 yr adroddiad yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor, o ran gwaith cynnal a chadw'r pyrth, i gydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cynnal a chadw'r pyrth. Ychwanegodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd er bod gwaith torri porfa amwynder yn cael ei gydnabod yn yr adroddiad, nid oedd y ddarpariaeth hon yn rhan o waith y grŵp gorchwyl a gorffen a gellid ei ystyried yn fater ar wahân yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at y daflen ddrafft, a gafodd ei ganmol. Gofynnwyd a ellid darparu'r daflen derfynol i Gynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth wrth y Pwyllgor y byddai'r daflen yn parhau i gael ei datblygu drwy ymgynghori ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru), Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Tirfeniaddwyr Cefn Gwlad, ac ar ôl cymeradwyo'r daflen, byddai'n cael ei dosbarthu yn eang gan gynnwys i Gynghorau Tref a Chymuned.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch draeniau, eglurodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth y rhagdybir fel arfer mai tirfeddianwyr cyfagos sy'n berchen ar ddraeniau ymylon ffyrdd ac sy'n gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, os byddai draeniau newydd ar briffyrdd yn cael eu cyflwyno, a fyddai'n cael effaith andwyol ar dir cyfagos, byddai ymgynghori priodol yn cael ei gynnal cyn gwneud unrhyw waith.

- Gofynnwyd hefyd ynghylch diogelwch contractwyr a sut y gorfodir hyn. Nododd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod yn rhaid i'r holl gontractwyr a gyflogir gan yr Awdurdod gydymffurfio â'r canllawiau diogelwch a osodwyd gan yr Adran Drafnidiaeth a bod gan unrhyw un sy'n ymgymryd â gwaith ar y briffordd gyhoeddus ddyletswydd gofal o ran defnyddwyr y ffordd. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch swyddogaeth orfodi i'r perwyl hwn. O ran ein contractwyr torri gwair, cynhaliwyd gwaith monitro parhaus gan ein tîm o Arolygwyr Priffyrdd. Yn ogystal, pwysleisiodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y byddai contractwyr yn cael eu harchwilio, ac os canfyddir nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch, byddai camau'n cael eu cymryd drwy'r contract i fynd i'r afael â'r mater.

- Awgrymwyd, er mwyn cyflymu'r gwaith o dorri glaswellt wrth ddefnyddio dulliau gwell o reoli traffic, gallai contractwr ddefnyddio 2 tractor. Dywedodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai'r awgrym yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygid contractau tendr.

Canmolodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'i gyflwyno at sylw'r Bwrdd Gweithredol i'w hystyried.**

**7. PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AR GYFER 2018/19 - BLAENRAGLEN WAITH**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Blaenraglen Waith am 2018/19.

Nododd yr aelodau fod y rhaglen yn ddogfen hyblyg y gellid ei haddasu i gynnwys eitemau agenda a chyfarfodydd ychwanegol yn ystod blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd am 2018/19 yn cael ei chymeradwyo.**

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Nododd y Pwyllgor nad oedd y wybodaeth ddiweddaraf am Safonau Masnach Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i chyflwyno na chwaith Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion 17/18, a ohiriwyd i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 29 Mehefin 2018.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad craffu nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 29 Mehefin 2018 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener, 29 Mehefin, 2018.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**